



Mr Jeremy Patterson
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Powys
Neuadd Sir Powys
Spa Road East
Llandrindod
LD1 5LG

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

17 Ebrill 2015

Annwyl Mr Patterson

Hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol a roddir o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006: Gwybodaeth Ychwanegol Angenrheidiol

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch ichi unwaith eto am roi ymateb prydlon i'm Hanghenion Gweithredu, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chanfyddiadau fy Adolygiad o Gartrefi Gofal.

Erbyn hyn, rwyf wedi cael cyfle i adolygu pob ymateb gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad ac rwyf wedi amgáu fy arfarniad o'ch ymateb chi.

Os codoch chi gwestiynau penodol ynghylch fy Anghenion Gweithredu, mae fy ymateb i'r rhain wedi'i atodi.

Wrth ddadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni.

Mae'n glir o'ch ymateb eich bod wedi meddwl gryn dipyn am hyn a'ch bod wedi canolbwyntio'n gryf ar y canlyniadau rwy'n ceisio eu sicrhau ar ran pobl hŷn.

Fel y gwelwch o'm dadansoddiad i, rwyf wedi nodi'n glir a yw pob elfen yn eich ymateb yn 'dderbyniol', yn 'rhannol' (angen rhagor o wybodaeth)

neu'n 'annerbyniol'. Mae 'derbyniol' yn golygu bod lefel y sicrwydd sydd wedi'i roi imi ar sail yr wybodaeth a roddwyd yn ddigonol; mae 'rhannol' ac 'annerbyniol' yn golygu bod arna i angen rhagor o wybodaeth er mwyn cael fy sicrhau y bydd yr Angen Gweithredu'n cael ei roi ar waith ac y bydd y canlyniad arfaethedig yn cael ei gyflawni.

Pan wyf wedi dod i'r casgliad bod elfen yn eich ymateb naill ai'n rhannol neu'n annerbyniol, mae arna i angen rhagor o wybodaeth neu ymagwedd ddiwygiedig er mwyn cael fy modloni bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â'r Angen Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol er mwyn cyflawni'r newid angenrheidiol. Dylech ddarparu'r wybodaeth hon imi erbyn **dydd Gwener 15 Mai 2015**, yn unol â'r amserlenni a bennir yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Os nad ydych yn glir ynglŷn ag unrhyw agwedd ar eich ymateb, yn arbennig felly beth fyddai'n rhoi'r lefel sicrwydd rwy'n chwilio amdani, neu os oes gennych gwestiynau manwl am yr Anghenion Gweithredu, mae croeso ichi gysylltu â mi.

O dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, mae'n ofynnol imi gadw cofrestr o'r ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â'r dadansoddiad o bob ymateb. Byddaf hefyd yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i'n credu, ar sail yr wybodaeth bellach a fydd yn dod i law, y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu. Yn ychwanegol at gyhoeddi'r wybodaeth ar fy ngwefan, byddaf hefyd yn gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol, o ran trosolwg o'r camau sydd ar eu hanner a'r camau y mae'r cyrff unigol sy'n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'm Cyfarwyddwr Llesiant a Grymuso, Daisy Cole, ar 08442 640670.

Yn gywir



Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys

Angen Gweithredu 1.3

Casgliad Cychwynnol - Derbyniol

1.3 Dylai cefnogaeth ymataliaeth arbenigol fod ar gael i bob cartref gofal er mwyn cefnogi arferion gorau o ran gofal ymataliaeth, a hynny'n seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol eglur o ran defnyddio cymhorthion ymataliaeth ac urddas.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn cynnwys datganiad am y math o ddarpariaeth bresennol ar gyfer gofal anymataliaeth. Does dim dadansoddiad o realiti presennol mynediad i wasanaethau o'r fath, a'u hansawdd. Er hynny mae yna gynllun clir ac ymrwymiad i asesu argaeledd, y cymorth y mae ar gartrefi gofal ei angen a bwriad i fonitro'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau mynediad ac ansawdd yn y dyfodol.

Mae'r ymateb yn enwi unigolion cyfrifol, ac yn cynnig amserlenni clir ar gyfer pob cam yn y gweithredu arfaethedig.

Angen Gweithredu 1.6

Casgliad Cychwynnol - Derbyniol

1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fo pobl hŷn mewn perygl, neu yn dioddef camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol.
- lle mae cartref gofal yn cau neu berson hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid.
- pan fo person hŷn angen cymorth i'w helpu i adael yr ysbyty.

Yn achos y rhai sydd â chapasiti anwadal neu anawsterau cyfathrebu, dylai hwn fod yn eiriolaeth na chyfarwyddir.

Pan fo pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, mae'n rhaid i

breswylwyr gael mynediad i eiriolaeth na chyfarwyddir.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn rhoi datganiad bod eiriolaeth ar gael yn y rhanbarth. Er hynny does dim rhagor o wybodaeth am y mathau o eiriolaeth annibynnol, y lefelau a'r ansawdd.

Serch hynny, mae yna gynllun clir ac ymrwymiad i asesu'r hyn sydd ar gael, nodi unrhyw gamau y mae angen eu cymryd i ateb yr Angen Gweithredu a chynnwys gwaith monitro a chloriannu yn y cynllun er mwyn sicrhau bod mynediad i eiriolaeth annibynnol a'i hansawdd yn cael eu sicrhau.

Ar ben hynny, mae'r ymateb yn cynnwys ymrwymiad i gysylltu'n uniongyrchol â derbynwyr y gwasanaethau lle bynnag y bo modd wrth ailasesu'r trefniadau ynglŷn â darparu eiriolaeth.

Mae'r ymateb yn enwi unigolion sy'n gyfrifol am gyflawni'r Angen Gweithredu ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol. Er bod rhai o'r llinellau amser y tu allan i'r amser sydd wedi'i bennu yn yr Angen Gweithredu, mae amserlenni clir wedi'u nodi ar gyfer pob cam yn y gweithredu arfaethedig.

Angen Gweithredu 2.2

Casgliad Cychwynnol - Derbyniol

2.2 Mae gan bobl hŷn fynediad i wasanaethau arbenigol a, phan fo hynny'n briodol, i ofal amlddisgyblaethol a ddyluniwyd i gefnogi adsefydlu yn dilyn cyfnod o afiechyd.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn rhoi datganiad bod gwasanaethau adsefydlu cymunedol a gwasanaethau arbenigol ar gael. Er hynny, does dim rhagor o wybodaeth am y mathau o ddarpariaeth bresennol, y lefelau a'r ansawdd.

Serch hynny, mae yna gynllun clir ac ymrwymiad i asesu'r hyn sydd ar gael, mapio unrhyw fylchau a chymryd unrhyw gamau y mae angen eu

cymryd i ateb yr Angen. Mae gwaith i fonitro ac arfarnu'r ddarpariaeth wedi'u cynnwys yn y cynllun hefyd er mwyn sicrhau mynediad ac ansawdd. Ceir ymrwymiad a bwriad i weithio gyda rheolwyr cartrefi gofal a meddygon teulu.

Mae'r ymateb yn enwi unigolion sy'n gyfrifol am gyflawni'r Angen Gweithredu ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol. Er bod rhai o'r llinellau amser y tu allan i'r amser sydd wedi'i bennu yn yr Angen Gweithredu, mae amserlenni clir wedi'u nodi ar gyfer pob cam yn y gweithredu arfaethedig.

Angen Gweithredu 3.2

Casgliad Cychwynnol - Derbyniol

3.2 Mae holl weithwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia sylfaenol fel rhan o'r drefn gynefino, ac mae'r holl staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia ychwanegol yn barhaus fel rhan o ddatblygu eu sgiliau a'u cymhwysedd, ac mae hyn yn elfen benodol o oruchwyllo ac asesu perfformiad.

Mae'n ymddangos bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r angen hwn yn dangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd hyfforddiant dementia gan ddweud bod hyfforddiant a datblygiad i'r gweithlu ar draws y sector cyfan yn un o ymrwymadau allweddol y Bwrdd Arweinyddiaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion.

Mae'r ymateb hefyd yn rhoi amlinelliad o'r cynlluniau at y dyfodol, gan ddweud y bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod pob cartref gofal yn cael dilyn yr hyfforddiant sydd ar gael gan hyrwyddo hynny drwy fforymau darparwyr.

Er hynny, nid yw ymateb yr Awdurdod Lleol yn rhoi manylion penodol am lefel a chywair yr hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu. Byddai cyfeiriad at linell amser o ran y cynlluniau at y dyfodol yn ddefnyddiol.

Angen Gweithredu 3.3

Casgliad Cychwynnol – Rhannol

3.3 Dylid cymryd camau o ddifrif i annog defnyddio cynlluniau cyfeillio mewn cartrefi gofal, yn cynnwys prosiectau pontio'r cenedlaethau, a chefnogi preswylwyr i ddal eu gafael ar gyfeillgarwch sy'n bodoli. Mae'n rhaid i hyn gynnwys sicrhau mynediad parhaus i gefnogaeth sy'n seiliedig ar ffydd ac i gymunedau diwylliannol penodol.

Mae'n ymddangos bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r angen hwn yn dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o bwysigrwydd cyfeillio, gan nodi ymrwymiad i weithio gyda'r trydydd sector i helpu Cartrefi Gofal i gadw cysylltiadau â'r gymuned.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn bwriadu adolygu'r cymorth y mae swyddogion presennol y trydydd sector yn ei roi i gartrefi gofal cymunedol drwy gyfrwng ei Bwynt Mynediad Sengl.

Mae'n ymddangos nad yw'r datganiad yn ystyried ystod lawn cyfeillio nac ystyr cyfeillio – gan gynnwys rôl gwaith i bontio'r cenedlaethau. Byddai'r datganiad yn well pe bai rhagor o fanylion wedi'u cynnwys i esbonio'r camau arfaethedig yn gliriach.

Er bod yna gynllun gweithredu, fe allai fod yn fwy cynhwysol o ran ystod y mentrau cyfeillio, a pheidio â dibynnu cymaint ar y trydydd sector yn unig.

Hefyd, mae'n ymddangos nad yw ymateb yr Awdurdod Lleol yn cyfeirio at rai o'r manylion yn Anghenion y Comisiynydd, sef agweddau eraill ar gyfeillio megis angen diwylliannol, ysbrydolrwydd a'r angen i estyn allan at grwpiau ffydd.

Angen Gweithredu 3.4

Casgliad Cychwynnol - Derbyniol

3.4 Datblygu cefnogaeth iechyd meddwl a lles arbenigol amlddisgyblaethol, mewngymorth ar gyfer pobl hŷn mewn cartrefi gofal, a sicrhau ei fod ar gael, yn cynnwys:

- Asesu iechyd meddwl a lles pobl hŷn fel rhan o'u gofal cychwynnol

ac asesu datblygiad eu cynllun cefnogaeth a chynllunio eu gofal parhaus.

- Cyngor a chefnogaeth i staff gofal ynghylch sut i ofalu'n effeithiol am bobl hŷn ag anghenion lles meddyliol ac iechyd meddyliol, yn cynnwys dementia, a phryd i atgyfeirio.
- Llwybrau atgyfeirio amlwg a meini prawf ar gyfer atgyfeirio.
- Mae'r holl breswylwyr sydd yn cymryd cyffuriau gwrthseicotig yn cael eu monitro a'u hasesu ar gyfer y posibilrwydd o ddiddyfnu, ac mae adolygiadau yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau NICE.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn cynnwys datganiad am y ddarpariaeth bresennol ar gyfer cymorth iechyd meddwl arbenigol. Mae hyn yn cynnwys ystyried iechyd a llesiant meddwl fel rhan o gynllun gofal adeg y derbyniad cychwynnol. Mae yna ddatganiad o barodrwydd i wella a datblygu'r arferion yn hyn o beth.

Mae cynllun clir wedi'i amlinellu, gydag amserlenni, i adolygu sampl o nodiadau achosion ac asesu pa mor ddigonol yw'r mewngymorth mewn cartrefi gofal. Mae yna ymrwymiad i sefydlu mecanweithiau i roi gwell cymorth i staff iechyd meddwl er mwyn gwella'r broses o adnabod anghenion arbenigol. Mae yna gynllun clir hefyd i asesu ac arfarnu'r gwasanaethau mewngymorth presennol, ac i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth a diweddarau eu prosesau os bydd angen – gan gynnwys archwilio'r prosesau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu NICE.

Angen Gweithredu 3.5

Casgliad Cychwynnol – Derbyniol

3.5 Mae gwybodaeth yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol ynghylch defnyddio cyffuriau gwrthseicotig yn unol â chanllawiau NICE a Thargedau Deallus ar Gyfer Dementia Llywodraeth Cymru.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn rhoi ymrwymiad i ddatblygu'r dulliau casglu data y mae eu hangen er mwyn

dechrau cyhoeddi gwybodaeth am ddefnyddio cyffuriau gwrthseicotig, ynghyd ag amserlen glir. Ceir ymrwymiad arall i gynnwys y data hwn, gan gynnwys asesiad o'i gymharu â chanllawiau NICE a thargedau gwybodaeth Llywodraeth Cymru yn Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Iechyd Meddwl Powys.

Er nad oes ymrwymiad i gynnwys hyn yn y Datganiad Ansawdd Blynyddol mewn ymateb i'r Angen hwn, mae yna ymrwymiad mewn ymateb i Angen Gweithredu 6.8 i ddefnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Iechyd Meddwl Powys ar gyfer y Datganiad Ansawdd Blynyddol.

Angen Gweithredu 4.2

Casgliad Cychwynnol – Derbyniol

4.2 Mae cytundeb ffurfiol yn cael ei ddatblygu a'i weithredu rhwng y cartref gofal a gwasanaethau gofal sylfaenol ac arbenigol yn seiliedig ar y Datganiad o Hawliau. Dylai hyn gynnwys:

- Llwybrau atgyfeirio, yn cynnwys mynediad agored
- Amseroedd aros
- Gwybodaeth am atgyfeirio a rhyddhau
- Cyngor a gwybodaeth i gefnogi gofal parhaus y person hŷn yn y cartref
- Mynediad i wasanaethau arbenigol i bobl hŷn mewn cartrefi nyrsio yn unol â'r Canllawiau Hanfodion Gofal.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn dangos ymrwymiad i gydweithredu â Llywodraeth Cymru i ddatblygu Datganiad o Hawliau. Mae hyn hefyd yn cynnwys ymrwymiad, gan gynnwys amserlenni, i ddechrau cynnal asesiad sylfaenol o'r gwasanaethau presennol sy'n cael eu cyflawni ac i ddatblygu prosiect i roi'r Datganiad ar waith yn lleol. Mae'r ymateb yn cynnwys enw unigolyn sy'n gyfrifol am gyflawni'r gwaith hwn.

Angen Gweithredu 4.3

Casgliad Cychwynnol – Rhannol

4.3 Darperir gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant pan fo'n briodol i staff gofal er mwyn sicrhau eu bod yn deall ac yn adnabod anghenion iechyd pobl hŷn yn ogystal â phryd a sut i atgyfeirio.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn cynnwys syniad rhagweithiol ac unigryw, gan gynnwys llinellau amser, i ddatblygu cyfeiriadur o wasanaethau sy'n cynnwys gwasanaethau sylfaenol ac arbenigol yn y rhanbarth ac yn yr ardaloedd lleol, i'w ddefnyddio gan staff cartrefi gofal.

Mae yna ymrwymiad i weithio gyda darparwyr i nodi blaenoriaethau ar gyfer hyfforddiant a chymorth, ac ymrwymiad i hwyluso rhaglen flynyddol o gydadweithio rhwng gweithwyr proffesiynol a chartrefi gofal.

Er hynny, nid yw'n glir a yw hyn yn golygu datblygu hyfforddiant a chymorth newydd ychwanegol i staff cartrefi gofal pan fydd y blaenoriaethau a'r bylchau wedi'u nodi.

Mae'r ymateb yn cynnwys enw unigolyn sy'n atebol am gyflawni'r gwaith hwn.

Angen Gweithredu 4.4

Casgliad Cychwynnol – Rhannol

4.4 Wrth gyrraedd cartref gofal, mae pobl hŷn yn derbyn adolygiadau o feddyginiaethau gan weithiwr proffesiynol clinigol gymwys, ac adolygiadau rheolaidd o feddyginiaethau'n cael eu cynnal yn unol â'r arferion gorau a gyhoeddwyd.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn rhoi ymrwymiad clir i adolygu'r broses bresennol o reoli meddyginiaethau ac adolygu meddyginiaethau i bobl sy'n ymadael â'r ysbyty ac sy'n mynd i gartref gofal. Ceir ymrwymiad hefyd i ddiwygio contractau rhwng fferyllwyr a chartrefi gofal er mwyn cynnwys adolygiadau meddyginiaethau pan fydd pobl yn cael eu derbyn – gyda llinellau amser clir ar gyfer y camau hyn.

Mae'r ymateb yn cynnwys enw unigolyn sy'n atebol am gyflawni'r gwaith hwn.

Er hynny, mae'n ymddangos bod yr ymateb wedi'i bwysu tuag at unigolyn sy'n symud i gartref gofal o'r ysbyty ac nid o'i gartref. Does dim gwybodaeth benodol wedi'i rhoi am hyn.

Angen Gweithredu 5.6

Casgliad Cychwynnol – Derbyniol

5.6 Sefydlu Cynllun Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal ble mae Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu barhaus ynghylch yr ansawdd bywyd neu'r gofal a ddarperir i breswylwyr a/neu dorri hawliau dynol o bosibl.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio rheolwyr cartrefi gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, er mwyn darparu cefnogaeth ddwys a thrawsffurfiol er mwyn codi safonau ansawdd bywyd a gofal i breswylwyr yn ogystal ag atal a lliniaru risgiau i ddiogelwch yn y dyfodol.

Dylai'r gwasanaeth hefyd ddatblygu ystod o adnoddau a deunyddiau hyfforddi er mwyn cynorthwyo cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunanddatblygu a gwelliannau parhaus.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn rhoi ymrwymiad i weithio mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a chartrefi gofal i helpu i ddatblygu Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol.

Angen Gweithredu 6.2

Casgliad Cychwynnol – Rhannol

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion

ffurfiol) a sicrhau y gweithredir ar y pryderon a leisir ganddynt.

Dylai adroddiadau blynyddol gael eu llunio ar sut mae adborth parhaus pobl hŷn wedi'i ddefnyddio i sbarduno gwelliant parhaus (gweler cam 6.10).

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn dangos ymrwymiad rhagweithiol i ddatblygu gwasanaeth newydd i wrando ar bobl hŷn ac ymgysylltu â nhw er mwyn clywed eu barn am sut y gall gwasanaethau gael eu gwella. Ceir ymrwymiad hefyd i beilotio'r gwasanaeth newydd gydag unigolion er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd y nodau a ddymunir, ac i adolygu'r contract presennol ar gyfer cartrefi gofal a'r broses a'r dulliau ar gyfer monitro cartrefi gofal er mwyn caniatáu mwy o ffocws ar agweddau ar ansawdd bywyd. Ceir amserlenni ynglŷn â chymryd y camau hyn, ac er bod rhai y tu allan i amserlen yr Anghenion, diben hynny yw caniatáu i arfarniad llawn gael ei gyflawni.

Er hynny, does dim cyfeiriad at gydweithio ag AGGCC, nac at adroddiadau blynyddol am sut mae gwrando ar adborth wedi sbarduno gwelliannau mewn gwirionedd.

Mae'r ymateb yn enwi unigolion sy'n atebol am gyflawni'r Angen Gweithredu ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol.

Angen Gweithredu 6.7

Casgliad Cychwynnol – Derbyniol

6.7 Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn cael eu cyhoeddi gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a gomisiynir a chartrefi gofal yr Awdurdod Lleol. Dylai hyn gynnwys:

- argaeledd eiriolaeth annibynnol mewn cartrefi gofal
- ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn, yn cynnwys cyfeiriad penodol at
- bobl hŷn sy'n byw â dementia a/neu sy'n colli defnydd o

synhwyrâu

- sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ar draws yr Awdurdod Lleol safbwyntiau pobl hŷn, eiriolwyr ac aseswyr lleyg ynghylch yr ansawdd bywyd a'r gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal
- lleoliad daearyddol cartrefi gofal

Dylai manylion ychwanegol ynghylch gofynion adrodd yn ôl gael eu cynnwys fel rhan o'r Bil Rheoleiddio ac Archwilio.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol yn dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â'r Anghenion Gweithredu gyda syniad gweddol glir o ddatblygiadau arfaethedig i symud ymlaen.

Er mwyn gwneud hyn, bydd yr Awdurdod Lleol yn adolygu ei ffordd bresennol o fonitro contractau, o'i chymharu â'r meini prawf a nodwyd yn 6.7 er mwyn sicrhau ei fod yn gofyn y cwestiynau cywir. Bydd hefyd yn rhoi cymorth drwy ei dîm comisiynu a chontractau er mwyn galluogi cartrefi gofal i gyflawni'r gofynion ynglŷn â chael datganiad o safon.

Mae'r ymateb yn dweud hefyd y bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod y cartrefi gofal y mae'n eu comisiynu yn cyhoeddi datganiadau ansawdd blynyddol ac yn profi i weld a yw'r dogfennau cyhoeddedig hyn ar gael yn hwylus.

Angen Gweithredu 6.8

Casgliad Cychwynnol – Derbyniol

6.8 Mae Byrddau Iechyd yn cynnwys y wybodaeth ganlynol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal preswyl a nyrsio yn eu Datganiadau Ansawdd Blynyddol:

- defnydd amhriodol o gyffuriau gwrthseicotig
- mynediad i gefnogaeth iechyd meddwl a lles
- mynediad i atal cwympiadau

- mynediad i wasanaethau ail-alluogi
- cefnogaeth i gynnal golwg a chlyw

Datblygu meysydd eraill sydd i'w cynnwys fel rhan o ganllawiau DAB a gyhoeddir yn flynyddol.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn nodi cynllun clir o ran y data y mae angen ei gasglu, yn amlinellu prosesau ar gyfer ei gasglu, llinellau amser clir ar gyfer cyrraedd y nod ac enw unigolyn atebol.

Mae yna ymrwymiad hefyd i ddefnyddio gwybodaeth o ffynonellau eraill i'w chynnwys yn y Datganiadau Ansawdd Blynyddol, megis Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Iechyd Meddwl Powys.

Angen Gweithredu 7.3

Casgliad Cychwynnol – Rhannol

7.3 Mae'r GIG yn gweithio â'r sector cartrefi gofal er mwyn ei ddatblygu fel rhan allweddol o'r llwybr gyrfa nyrsio, yn cynnwys darparu cefnogaeth datblygu proffesiynol a chymheiriaid llawn i nyrsys sy'n gweithio mewn cartrefi gofal.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu hwn yn cynnwys awgrym rhagweithiol a gwreiddiol i ddatblygu cynllun cyfeillio rhwng prif nyrsys a rheolwyr wardiau er mwyn caniatáu cymorth cymheiriaid a chymorth proffesiynol mewn amserlen ddiffiniedig.

Mae yna ymrwymiad i ymgysylltu â chartrefi gofal i ehangu hyfforddiant a datblygiad. Er hynny, mae hyn yn annelwig a does dim eglurhad ar sut y caiff hyn ei wneud na beth yw'r materion a'r rhwystrau presennol sy'n atal unigolyn rhag dod i'r proffesiwn.

Ceir ymrwymiad i ystyried ffyrdd gwahanol i waith cynllunio a recriwtio'r gweithlu nyrsio gael eu huno er mwyn cefnogi sector y cartrefi gofal, er enghraifft cysylltu â'r Gwasanaeth Gweithlu ac Addysg. Er hynny, does dim gwybodaeth am yr hyn y byddai hyn yn ei olygu yn ymarferol. Ar ben

hynny, does dim ymrwymiad pendant i roi unrhyw newidiadau neu gamau pendant ar waith ar ôl i'r gwaith ystyried gael ei wneud.